## Ffair Nadolig

Hoffwn ddiolch yn fawr i Ffrindiau Pwll Coch a phob aelod o gymuned yr ysgol am eich cefnogaeth gyda'r Ffair Nadolig wythnos ddiwethaf. Bydd yr holl arian a godwyd yn helpu'r ysgol gyda'r prosiectau sydd ar y gweill eleni!

## Christmas Fayre

I would like to thank Ffrindiau Pwll Coch and all members of the school community for your support with the Christmas Fayre last week. All the money raised will help the school with exciting projects that are already underway this year!

## Pêl-droed Caerdydd a'r Fro

Hoffwn longyfarch timau bechgyn a merched yr ysgol am gystadlu'n wych yn y cystadlaethau 5 bob ochr diweddar. Rydyn ni'n falch iawn o'ch ymdrechion!

## Cardiff and Vale Football

I would like to congratulate the school's boys' and girls' teams for competing brilliantly in the recent 5-a-side competitions. We are very proud of your efforts!

## Cogurdd a Poburdd

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau yma am gynrychioli'r ysgol yn wych yn ail rownd y cystadlaethau Cogurdd a Poburdd. Rwy'n clywed roedd eich byrgyr a chacennau yn flasus tu hwnt!

## Cogurdd and Poburdd

Congratulations to these two for representing the school brilliantly in the second round of the Cogurdd and Poburdd competitions. I hear that the burgers and cakes that you produced were delicious!

## Ysgol Sy'n Parchu Hawliau

Mae Ysgol Pwll Coch nawr yn *Ysgol sy'n Parchu Hawliau*, diolch i waith caled y Llysgenhadon Hawliau. Da iawn chi!

## Rights Respecting School

Ysgol Pwll Coch is now a Rights *Respecting School*, thanks to the hard work of the Rights Ambassadors. Da iawn chi!

## Ffonau Clyfar

Efallai eich bod wedi clywed yn ddiweddar am yr ymgyrch *Smartphone Free Childhood* sydd wedi bod yn y wasg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ddiweddar ar effeithiau negyddol ffonau clyfar ar ddatblygiad ymennydd plant. Mae gan un o bob pump o blant rhwng tair a phedair oed eu ffôn symudol eu hunain, sy'n cynyddu i un o bob pedwar plentyn erbyn wyth oed ac i bron bob plentyn erbyn deuddeg oed.

Mae rhoi ffôn i'ch plentyn yn ddewis personol  wrth gwrs, ond i'r rhieni hynny sydd efallai'n teimlo nad ydynt yn barod eto i ganiatáu mynediad i ffôn clyfar, ond sy'n poeni am gerdded i'r ysgol, am bwysau cyfoedion neu y bydd eu plentyn yn 'cael ei adael allan', mae yna nifer gynyddol o gymuned Pwll Coch sy'n ystyried, neu sydd wedi penderfynu peidio â rhoi ffôn clyfar i'w plentyn gan ddewis fersiwn sylfaenol heb fynediad i ap/cyfryngau cymdeithasol, neu efallai dim ffôn o gwbl. Os hoffech chi ddeall mwy ewch i: www.smartphonefreechildhood.co.uk

## Smartphones

You may have heard recently about the *Smartphone Free Childhood* campaign that has been in the press which is based on recent evidence regarding the negative effects of smartphones on children's brain development. One in five children between the ages of three and four have their own mobile phone, which increases to one in four children by the age of eight and to almost all children by the age of twelve.

Giving your child a phone is of course a personal choice, but for those parents who may feel they are not yet ready to allow access to a smartphone, but are worried about walking to school, peer pressure or that their child will be 'left out', there is a growing number of Pwll Coch parents who are considering, or have decided not to give their child a smartphone, opting for a basic version without app/social media access , or maybe no phone at all. If you would like to understand more, go to: www.smartphonefreechildhood.co.uk

## Ymunwch â loteri Pwll Coch!!

https://www.yourschoollottery.co.uk/lottery/school/ysgol-gymraeg-pwll-coch

Mae Pwll Coch wedi ymuno â chynllun Your School Lottery. Am £1 yr wythnos mae cyfle i chi ennill gwobr wythnosol (enillydd o Bwll Coch bob wythnos) tra hefyd yn cyfrannu at gronfa'r Ffrindiau. Mae 40% o bob punt yn mynd tuag at yr ysgol a 30% tuag at y gronfa wobrau wythnosol. Po fwyaf sy'n chwarae po uchaf fydd y jacpot wythnosol! Mae cyfle hefyd i ennill y jacpot £25,000 ar draws Prydain! Mae ennillydd newydd bob dydd Sadwrn - ewch amdani! **Rydyn ni wedi codi dros £530 i'r ysgol ers i ni ymuno ym mis Mehefin ac felly mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth sylweddol!**

## My School Lottery

https://www.yourschoollottery.co.uk/lottery/school/ysgol-gymraeg-pwll-coch

Pwll Coch have joined the Your School Lottery scheme. For £1 per week you can be in with a chance to win a weekly prize (guaranteed winner from Pwll Coch each week) whilst also contributing to fundraising for the Ffrindiau. 40% of each pound goes towards the Ffrindiau and 30% towards the weekly prize fund. The more that play the higher the weekly jackpot will be. There is also a chance to win the £25,000 UK Jackpot! A winner is drawn every Saturday, so sign up now! **We have raised over £530 for the school since we joined in June and so your support makes a significant difference!**

| Diwrnodau di-wisg ysgol / Non-uniform days | Cyfleoedd i rieni a gwarcheidwaid/ Parental Engagement | Profiadau a Digwyddiadau/ Experiences and Events |
|---|---|---|
| **12/12/24**<br>Diwrnod siwmperi Nadolig<br><br>Christmas jumper day | | **17/12/24**<br>Sioe Cyw Dosbarth Derbyn<br><br>Reception Class Cyw Show |
| **20/12/24**<br>Diwrnod ola'r tymor<br><br>Last day of term | | **18/12/24**<br>Diwrnod Cinio Nadolig!<br><br>Christmas Dinner Day! |
| | | **18/12/24**<br>Blwyddyn 6 – Sglefrio Iâ<br><br>Year 6 – Ice Skating |

| **Dyddiadau HMS 2024-25 INSET Dates** |
|---|
| Dydd Llun / Monday 06/01/25 |
| Dydd Llun / Monday 03/03/25 |
| Dydd Llun / Monday 21/07/25 |
| Am restr o ddyddiadau tymor ysgol 2024-25, cliciwch yma!<br>For a list of 2024-25 term dates, click here! |

| **Teithiau Preswyl 2024-25 Residential Trips** |
|---|
| Blwyddyn 4 – Bae Caerdydd/ Cardiff Bay<br>16/01/25-17/01/25 |

| **Cyngherddau Nadolig 2024 Christmas Shows** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Pryd?<br>When?** | **Ble?<br>Where?** | **Amser<br>Time** |
| **Blynyddoedd / Years1&2** | 10/12/24 | Neuadd yr Ysgol<br>School Hall | 1:30-2:30 |
| **Blynyddoedd / Years 5&6** | 11/12/24 | Capel Salem, Treganna<br>Salem Chapel, Canton | 1:30-2:30 |